CYNGOR SIR Y FFLINT
ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984

CROESFAN ARFAETHEDIG I GERDDWYR AR YR A550, FFORDD PENARLÂG, YR HÔB

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn fod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 yn Neddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Pâl i Gerddwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

Rheswm dros y cynnig:

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i osod cyfleuster croesfan barhaol.

Mae'r Awdurdod wedi nodi'r A550, Ffordd Penarlâg, Yr Hôb fel lleoliad addas ar gyfer cyfleuster croesfan Pâl.

Cynigir gosod y groesfan yn y lleoliad hwn i roi cyfleuster croesi diogel ac wedi'i reoli i gerddwyr sy'n teithio rhwng ardaloedd preswyl cyfagos, siopau lleol a'r ysgol uwchradd leol. Mae'r cyfleoedd croesi presennol yn gyfyngedig ac, ar hyn o bryd, mae gofyn i gerddwyr, yn cynnwys plant ysgol, rhieni, trigolion oedrannus a'r rhai sydd ag amhariad symudedd, groesi rhan brysur o'r briffordd heb y budd o gael cyfleuster croesi pwrpasol.

Felly bwriedir i'r cynnig:

Wella diogelwch cerddwyr drwy ddarparu man croesi wedi'i reoli.
Hwyluso mynediad mwy diogel at siopau lleol, cyfleusterau cymunedol a'r ysgol.
Annog cerdded fel dull teithio cynaliadwy.
Lleihau gwrthdrawiadau rhwng cerddwyr a cherbydau.
Gwella hygyrchedd i'r holl ddefnyddwyr, yn cynnwys y rhai ag anableddau, amhariad symudedd a rhieni sy'n gwthio pramiau.
Cefnogi plant sy'n teithio i ac o'r ysgol i symud yn ddiogel.

Mae'r Groesfan Pâl wedi'i ddewis fel y dull mwyaf priodol o gyfleuster croesi ar gyfer y lleoliad, gan roi technoleg canfod i gerddwyr a all addasu amseroedd croesi i gyd-fynd â galw'r cerddwyr a gwella diogelwch.

Felly ystyrir y bydd gosod Croesfan Pâl yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiogelwch y ffordd, hygyrchedd a chysylltedd cymunedol, a dylid rhoi'r cynnig ar waith er budd holl ddefnyddwyr y briffordd.

Bydd y gwaharddiad arferol yn berthnasol i atal cerbydau rhag parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y briffordd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar bob ochr i'r groesfan.

Gellir gweld copi o'r Rhybudd hwn, a chynllun sy'n dangos y ffordd y mae'r cynnig yn effeithio arni, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Gysylltu Bwcle, Llyfrgell Bwcle, The Precinct, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF.Bydd y dogfennau hefyd ar gael i'w gweld ar-lein ar ein gwefan, sef www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener, 11 Rhagfyr 2026, neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/A550/Puffin.

ATODLEN

Gosod Croesfan Pâl Newydd i Gerddwyr

Yr A550, Ffordd Penarlâg, Yr Hôb – rhwng cyffordd Fagl Lane a chyffordd Kiln Lane.

Dyddiedig dydd Gwener y 20 diwrnod o fis Tachwedd 2026



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami,
Ffordd yr Wyddgrug,
Alltami,
Yr Wyddgrug.
CH7 6LG



CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

Alltami Depot, Mold Road
Alltami, Mold. CH7 6LG

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: LS

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 330922 358374

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

AMENDMENTS:	DATE

A550 Hawarden Road Hope

A550, FFORDD PENARLÂG, YR HÔB

Proposed Puffin Crossing
Croesfan pâl arfaethedig

DRAWING NUMBER HT/26/A550H 101 P1